***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Paragraff 3. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 11

# TRIBIWNLYS Y GYMRAEG

## RHAN 2

## PENODI

*Y Llywydd*

3 (1) Dim ond os yw'r person yn bodloni'r canlynol y caiff Gweinidogion Cymru benodi person yn Llywydd—

(a) yr amod cymhwystra penodiad barnwrol ar sail 10 mlynedd, a

(b) unrhyw amodau eraill sy'n gymwys i'r penodiad ac a bennir yn y rheoliadau penodi.

(2) Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru benodi person yn Llywydd os yw'r person—

(a) wedi ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Tribiwnlys ar sail cyflogaeth neu anaddasrwydd, neu

(b) wedi ei anghymhwyso rhag ei benodi'n Llywydd ar sail oedran, penodiad blaenorol neu ddiswyddiad blaenorol.

(3) Mae Rhan 2 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 yn gymwys ar gyfer dyfarnu a yw person yn bodloni'r amod cymhwystra penodiad barnwrol ar sail 10 mlynedd fel pe bai'r paragraff hwn yn ddarpariaeth statudol (o fewn ystyr adran 50 o'r Ddeddf honno).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 11 para. 3 ddim mewn grym ar Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 156(2)**

**I2** Atod. 11 para. 3 mewn grym ar 7.1.2014 gan O.S. 2013/3140, **ergl. 2(k)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Paragraff 3.